



# Children in Wales Plant yng Nghymru

Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2017-18



- Cynrychioli'r sector
- Ymgynghori â'n haelodau
- Hyfforddiant arbenigol
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc
- Dylanwadu ar bolisi ac arfer
- Datblygu rhwydweithiau cryf
- Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth



*Dr Dave Williams, Cadeirydd Plant yng Nghymru, a Catriona Williams OBE, Prif Weithredydd*

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer cyrff gwirfoddol, statudol a phroffesiynol ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru.

Ein nod yw hyrwyddo buddiannau'r grwpiau hyn a chymryd camau i ddiwallu eu hanghenion drwy:

- Gyfrannu at wireddu hawliau plant yng Nghymru
- Ymladd dros wasanaethau cynaliadwy o'r radd flaenaf a chyfrannau teg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a'r sawl sydd wedi'u hymylu
- Sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais

Mae Plant yng Nghymru yn sefydliad aelodaeth ac yn cynnig ystod o wasanaethau gyda'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd i'w aelodau a hwylyso cyd-ymatebion. Rydym yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad anadrannol annibynnol.

Rydym hefyd yn cael ein hariannu dan y Grant Datblygu Plant a Theuluoedd oddi wrth Lywodraeth Cymru am fenter tair blynedd i leihau anghydraddoldebau ym meysydd iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd i blant sy'n byw mewn tldi, gan weithio yn ôl yr amcanion canlynol:

- Hysbysu a galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol ac i'w lleisiau gael eu clywed gan Weinidogion a gwneuthurwyr polisi
- Sicrhau bod y gweithlu plant a phobl ifanc yn gwybod am hawl plant i gymryd rhan ac i strwythurau fod ar waith sy'n hwylyso rhannu dulliau cyfranogi effeithiol
- Cefnogi gweithlu aml-asiantaeth, traws-sectorol mwy gwybodus ac ymgysylltiol, gan gynnwys gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr, i gyflawni polisi Llywodraeth Cymru
- Dylanwadu a chyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad polisi ac ymarfer gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar, atal a lliniaru tldi, a hynny ar sail blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru

Yn ystod 2017-2018, parhaodd menter Cymru Ifanc i dyfu ochr yn ochr â'n gwaith ar ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau gwybodaeth i'n haelodau.

Yn ogystal, mae Plant yng Nghymru wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed mewn materion gwleidyddol ehangach. Yn ystod y flwyddyn cynhaliom arolwg ymhlith plant a phobl ifanc, yn ogystal ag oedolion, ynghylch cwestiwn pleidleisiau yn 16 oed. Credwn ei bod yn bwysig bod gan blant lais yn eu dyfodol. Mae hyn wedi llywio'n gwaith ar Brexit a hawliau plant hefyd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi manylion ein gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a hoffem ddiolch i'n haelodau a phawb rydym yn gweithio gyda hwy yn y sector am eich mewnbwn.

## Contents

Plant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithlu mwy cysylltiedig	3-7	Hyfforddiant	18-19
Dylanwadu ar arfer, datblygiad polisi ac ymchwil	8-12	Llywodraethu	20
Plant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithlu mwy gwybodus	14-15	Aelodaeth	21-22
Cynadleddau a digwyddiadau	16-17	Crynodeb ariannol	23



## Plant a phobl ifanc mwy cysylltiedig



Staff o Cymru Ifanc yn croesawu pobl ifanc i'n stondin yn Eisteddfod yr Urdd

Cymru Ifanc yw menter cyfranogiad Plant yng Nghymru, sy'n cael ei hariannu dan Grant Cyflenwi Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith yn cael ei lywio gan Fwrdd Prosiect Cymru Ifanc, a chan y blaenoriaethau sy'n cael eu nodi'n feysydd o bwys drwy Fforymau Ieuentid awdurdodau lleol.

Yn ystod 2017-18, parhaom â'r gwaith o roi llais i bobl ifanc drwy ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori.

### Senedd Ieuentid y DU

Yn Nhachwedd 2017, hwylusodd Cymru Ifanc aelodau Cymreig Senedd Ieuentid (MYPs) Cyngor Ieuentid Prydain (UKYP) i gymryd rhan yn nhrefnadaeth flynyddol y Senedd Ieuentid. Mae Cymru Ifanc yn cyd-drefnu digwyddiadau UKYP yng Nghymru, gan gynnwys trefnu pleidlais Gwneud Eich Marc, sy'n caniatáu i bobl ifanc ddewis pa bynciau a gaiff eu trafod. Mae Cymru Ifanc hefyd yn cynnal ffug drafodaethau a hyfforddiant er mwyn paratoi'r sawl sy'n mynychu'r digwyddiad.

Yn y digwyddiad, pleidleisiodd aelodau UKYP ar eu hymgyrch am y flwyddyn nesaf a phenderfynu canolbwyntio ar ostwng yr oedran pleidleisio i 16 a chwricwlwm am oes yn 2018. Cafodd confensiwn pellach ei gynnal yn Ionawr 2018 i edrych ar yr ymgyrch am y flwyddyn ymlaen.

### Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol

Yn dilyn ailwampio'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, mae Cymru Ifanc wedi datblygu'r Siarter Cyfranogiad Cenedlaethol, a all gael ei ddefnyddio gan sefydliadau a gwasanaethau i ddangos eu hymrwymiad i'r Safonau Cyfranogiad. Mae'n ddatganiad o fwriad eu bod yn gweithio yn unol â'r Safonau, ond mae'n rhaid iddynt gyflawni'r Nod Barcud Cenedlaethol i ddefnyddio'r logo.

Mae'r Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol yn cael ei ddyfarnu i wasanaethau sydd wedi dangos eu bod yn cyflawni yn erbyn pob un o'r saith Safon Cyfranogiad Cenedlaethol. Dyfernir tystysgrif ac mae'r nod barcud yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

### Sesiswn Hawl i Holi

Ar 24 Hydref 2017, cynhaliodd Cymru Ifanc ddigwyddiad Question Time lle roedd pobl ifanc yn gallu rhoi cwestiynau i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â hawliau plant.

Roedd y panel yn cynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC; Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru; Dylan Jones, Dirprwy Bennaeth yn Ysgol Glan Clwyd; Yr Athro y Fonesig Sue Bailey a Steve Davies, Cyfarwyddwr Addysg yn Llywodraeth Cymru. Cadeiriwyd y digwyddiad gan Dr David Williams, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru. Roedd y cwestiynau'n cynnwys amrediad o bynciau, o addysg i ddiogelwch ar-lein a Brexit.

### Pleidleisiau yn 16 oed

Cynhaliodd Cymru Ifanc arolwg rhwng Medi a Hydref 2017 i gasglu barn ar gynigion Llywodraeth Cymru am newid sut mae pobl yn pleidleisio yng Nghymru, gan gynnwys gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed ar gyfer etholiadau yng Nghymru. Roedd yr arolwg ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n gweithio gyda hwy, a chyfrannu at ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.



Yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn annerch cynadledwyr yn ein digwyddiad Question Time



Pobl ifanc yn gweithio ar eu sgiliau rapio yn nigwyddiad dathlu Cymru Ifanc

Derbyniodd yr arolwg 346 o ymatebion, sy'n ymrannu yn y bandiau oedran canlynol: 141 o bobl fan 18 (40.75%), 73 rhwng 18 a 25 oed (21.10%) a 132 dros 25 oed (38.15%). Dywedodd 69.52% o'r ymatebwyr y dylai'r oedran pleidleisio gael ei ostwng i 16.

#### Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP)

Mae Cymru Ifanc wedi gweithio gyda rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) i gynhyrchu newyddlen reolaidd am waith y rhaglen ar gyfer pobl ifanc. T4CYP yw'r rhaglen gwella gwasanaethau aml-asiantaeth sy'n bwriadu gwella gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Plant yng Nghymru sy'n cynrychioli'r trydydd sector ar Fwrdd Rhaglen T4CYP ac mae Cymru Ifanc yn gweithio'n agos gyda hwy hefyd i sicrhau ymgysylltiad pobl ifanc. Mae'r newyddlen ddiweddaraf yn cynnwys gwybodaeth am ymgysylltu â phlant a phobl ifanc; gwaith i gefnogi pobl ifanc yn ystod cyfnod pontio; y Bwrdd Rhaglen a Chynhadledd Flynyddol T4CYP.

#### Digwyddiad Dathlu Cymru Ifanc

Cynhaliodd Cymru Ifanc ddigwyddiad dathlu ar 18 Mawrth. Dathlodd y digwyddiad lwyddiannau Cymru Ifanc yn ystod y tair blynedd ddiwethaf a'i nod oedd edrych ymlaen tua'r dyfodol a beth ddylai ei flaenoriaethau fod.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ac roedd yn cynnwys stondinau a gweithdai a drefnwyd gan wahanol Fforymau a Grwpiau, tipyn o droelli, rapio ac ysgrifennu geiriau caneuon, sgiliau hud a syrcau a sesiwn holi. Roeddem wrth ein bodd bod Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ill dau yn gallu bod yn bresennol a chynnal gweithdai.

Roedd neges ysgrifenedig hefyd oddi wrth y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol, Huw Irranca-Davies AC, a gafodd ei darllen gan aelod o Fwrdd Prosiect Cymru Ifanc.

#### Addysg a Diwygio'r Cwricwlwm

Cynhaliwyd gweithdai Addysg a Diwygio'r Cwricwlwm Cymru Ifanc yng Ngorffennaf 2017, gan adeiladu ar yr wybodaeth a gawsom oddi wrth bobl ifanc am y pynciau roeddent yn teimlo bod arnynt eu hangen ar gyfer Cwricwlwm am Oes. Roedd y rhain yn ymrannu'n dair prif thema sef: lesiant, sgiliau bywyd a digidol.

Soniodd ymatebion y bobl ifanc am sut maent yn cael eu haddysgu a pha wybodaeth sydd ar gael iddynt. Roeddent yn awgrymu bod arnynt eisiau i wybodaeth sy'n berthnasol iddynt gael ei gosod yng nghyd-destun bywyd bob dydd; ac i ddatblygu gwersi a dealltwriaeth o bynciau, yn hytrach na dim ond gwybodaeth i'w chofio.

Ar 22 Mehefin 2017, cyfarfu tri pherson ifanc â Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Roedd dau o'r bobl ifanc o Fwrdd Prosiect Cymru Ifanc, ac roedd un o Gyngor Ieuenctid Caerdydd.

Roedd y drafodaeth yn cynnwys codi materion a drafodwyd yn y Gweithdy Addysg yng nghynhadledd Cymru Ifanc, gan gynnwys barn pobl ifanc ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCC) a'r Cwricwlwm dros Oes.

#### Uwchgynhadledd Iechyd Ieuenctid

Ar 4 Tachwedd, daeth 85 o blant, pobl ifanc a gweithwyr ynghyd ar gyfer yr Uwchgynhadledd Iechyd Ieuenctid Gyntaf yng Nghymru, a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cymru Ifanc.

*"O ran UKYP, ers i Cymru Ifanc gymryd rhan mae'r profiad wedi bod yn llawer gwell, 100% yn well. Mae'r broses yng Nghymru yn llawer cryfach, mae cyfathrebu'n dda iawn ac rydym yn deall proses UKYP yn well, mae'r hyfforddiant ymlaen llaw yn dda iawn ac yn fuddiol."*  
- Gweithiwr cyfranogiad





*Rhai o'r bobl ifanc yn mwynhau stonidn Cymru Ifanc yn Pride Cymru 2017*

Roedd y digwyddiad yn gyfle i bobl ifanc ddysgu rhagor am iechyd a rhannu eu barn. Yna roedd pobl ifanc yn gallu cymryd rhan mewn gweithdai a edrychodd ar wahanol agweddau ar iechyd.

Cynhaliwyd sesiwn panel lle roedd plant a phobl ifanc yn medru gofyn cwestiynau'n uniongyrchol i'r Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Tracey Cooper, Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru a chynrychiolwyr ifanc.

Gofynnwyd llawer o gwestiynau treiddgar i'r panel am ystod o bynciau, gan gynnwys hygrychedd i bobl ifanc anabl, cymorth i ofalwyr ifanc, materion iechyd meddwl mewn addysg, gwasanaethau iechyd rhywiol a sut mae defnyddio adnoddau'n effeithlon.

### **Digwyddiadau Diwrnod y Gymanwlad**

Ar 12 Mawrth 2018, mynychodd Cymru Ifanc ddigwyddiad yn Llundain i ddathlu Diwrnod y Gymanwlad 2018 fel rhan o ddirprwyath Cyngor Ieuenctid Prydain o Gymru. Mynychodd cynrychiolwyr ifanc o Gaerdydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Wrecsam y digwyddiad a oedd yn cynnwys derbyniad yn Whitehall, lle roeddent yn gallu trafod eu blaenoriaethau.

Hwylusodd Cymru Ifanc gyfarfod rhwng pobl ifanc o bob rhan o Gymru a'r Arglwydd Ahmad, y Gweinidog Gwladol dros y Gymanwlad a'r Cenhedloedd Unedig yn Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, cyn y digwyddiad.

Hefyd mynychodd cynrychiolwyr Cymru Ifanc ddigwyddiad blynyddol Diwrnod y Gymanwlad a fynychwyd gan y Frenhines, uwch aelodau eraill o'r Teulu Brenhinol, aelodau o'r Corfflu Diplomyddol, ystod o ddinasyddion a sefydliadau'r Gymanwlad a mwy nag 800 o blant ysgol. Cynhwysodd y gwasanaeth gymysgedd o dystiolaethau, perfformiadau a darlleniadau o wahanol rannau o'r Gymanwlad.

Hefyd mynychodd y bobl ifanc sesiwn holi ac ateb a gynhaliwyd gan y Prif Weinidog.

Mynychodd pobl ifanc eraill o RCT a Chaerdydd ginio Cymru yn Swyddfa Cymru Llywodraeth y DU.

### **Ymdrin â bwlio**

Ym mis Hydref 2017, cynhaliodd Cymru Ifanc weithdai i bobl ifanc gael llais a dylanwadu ar ailwampio arweiniad Parchu Eraill Llywodraeth Cymru ar atal bwlio. Edrychodd y gweithdai ar ddiffiniadau o fwlio, atebion ymarferol ac ystyriaethau o ran presenoldeb.

Hefyd cynhaliodd Cymru Ifanc sesiynau i rieni a phobl ifanc am ddiogelwch y rhyngwrwyd. Edrychodd y sesiwn ar wahanol gymwysiadau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin gan bobl ifanc, er enghraifft, defnyddio'r gosodiadau i uchafu preifatrwydd. Edrychodd y cyflwyniad hefyd ar agwedd hawliau plant cyrchu gwybodaeth. Neges y sesiynau oedd mai cyfrifoldeb y plant a phobl ifanc eu hunain oedd ymddygiad a diogelwch ar-lein, yn ogystal â rhieni a gwarcheidwaid i'w cefnogi i wneud yn siŵr eu bod yn cyrchu'r rhyngwrwyd yn ddiogel.

Ar 15 Tachwedd 2017, mynychodd Cymru Ifanc Wobrau Ysbrydoli yng Nghaerdydd. Mae'r gwobrau yn dathlu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd â'r dewrder a'r cryfder cymeriad i sefyll i fyny dros eraill a/neu gyfeillio â phobl sy'n cael eu bwlio, eu pryfocio, eu hysbysu a'u hanwybyddu gan eraill. Roedd gan Cymru Ifanc stonidn yn y digwyddiad er mwyn rhannu gwybodaeth am ei waith gan ofyn i bobl ifanc gyfrannu hefyd at Gynllun Gweithredu Diogelwch ar-lein newydd Llywodraeth Cymru drwy ateb y cwestiwn "Beth sydd wir yn eich cythruddo am y rhyngwrwyd, cyfryngau cymdeithasol, aps neu gemau?" Amlygodd yr ymatebion y pryderon sydd gan bobl ifanc ynghylch dadlau, bwlio a throlio ar-lein.



*Cynrychiolwyr Cymru Ifanc yn mynychu dathliadau Diwrnod y Gymanwlad 2018*

### Hawliau plant

Cefnogodd Cymru Ifanc aelod o Gyngor Ieuenctid Caerdydd a mynd gydag ef i Frwsel yn Ebrill 2017, i barhau'r gwaith a ddatblygwyd yn 2016 am ddatblygiad strategaeth gyfranogi Eurochild. Gan adeiladu ar waith blaenorol a ddatblygwyd, cyflwynodd y bobl ifanc eu gwaith i grŵp rheoli ac aelodau Eurochild mewn cyfres o weithdai ac, yn dilyn diwygiadau, cyflwyno i'r grŵp cyfan ar brynhawn olaf y digwyddiad. Cafodd y strategaeth ei mabwysiadu gan fwrdd ac aelodau Eurochild.

Mae Cymru Ifanc wedi bod yn cyflwyno sesiynau UNCRC mewn ysgolion uwchradd yng Ngwynedd hefyd ar y cyd â chyrrff eraill a gyd-drefnir gan Dewis. Nod y sesiwn yw gwneud pobl ifanc yn ymwybodol bod ganddynt hawliau a dod yn gyfarwydd â beth yw rhai o'r hawliau hynny. Mae'n cynnig cyfle da i drafod sut maent yn berthnasol yn eu bywydau bob dydd hefyd.

### Urdd Eisteddfod

Eisteddfod yr Urdd

Ymwelodd mwy na 1500 o blant a phobl ifanc â stondin Cymru Ifanc yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Cwblhaodd rhyw 300 o blant a phobl ifanc arolygon i ni, a gofynnem i bobl ifanc eu barn am addysg, Brexit a gwasanaethau ieuenctid, gan roi'r cyfle iddynt adael sylwadau ar fwrdd cyfnas. Hefyd roedd gennym gemau a gwybodaeth ar gael, caban i dynnu hun-luniau, a gweithgareddau celf a chreffft ar gyfer plant iau.

Croesawodd Cymru Ifanc Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, i'r stondin ar 30 Mai 2017. Roedd hyn yn gyfle i rannu â hi rhai o'r sylwadau roeddem eisoes wedi eu casglu oddi wrth blant a phobl ifanc am wahanol faterion, ac iddi hi gwrdd â rhai o'r bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y stondin.

### Pride 2017

Cynhaliodd Cymru Ifanc stondin farchnad am yr ail flwyddyn yn olynol yn Pride Cymru 2017, dathliad mwyaf Cymru o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn ystod y ddau ddiwrnod, gwnaethom ymgysylltu â mwy na 500 o blant a phobl ifanc, a gymerodd ran mewn gweithgareddau ac ateb cwestiynau fel 'At bwy ydych chi'n mynd os oes angen help a chefnogaeth arnoch chi?' 'Os chi oedd y Prif Weinidog am ddiwrnod, beth fasech chi'n ei newid?' a 'Beth ydy'ch llwybrau chi at lesiant, beth sy'n eich gwneud yn hapus, yn iach ac yn ddiogel?'

Hefyd roedd gan bobl ifanc y cyfle i gymryd rhan mewn pleidlais ar a oeddent yn credu y dylai'r oedran pleidleisio gael ei ostwng o 18 i 16, gydag 88.5% yn pleidleisio o blaid.

### Gweithdy gyda Thrysorlys Cymru

Cynhaliodd Cymru Ifanc weithdy rhyngweithiol i gasglu barn pobl ifanc ar Gyllideb Cymru am y flwyddyn sy'n dod. Roedd hyn ar y cyd â Thrysorlys Cymru a oedd yn dymuno cynnwys barn pobl ifanc.



*Cynrychiolwyr Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc yn darllen neges oddi wrth y Gweinidog dros Blant, Gofal Cymdeithasol a Phobl Hŷn yn nigwyddiad dathlu Cymru Ifanc.*

## Teuluoedd a gweithlu mwy cysylltiedig

Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso rhwydweithiau sy'n dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd i drafod materion polisi ac arfer. Trwy'r rhwydweithiau hyn rydym yn hysbysu aelodau o ddatblygiadau newydd, rhannu arfer da a datblygu safbwyntiau priodol ar ddatblygiadau polisi. Yn 2017-18, roedd y grwpiau a'r rhwydweithiau a gynhaliom yn cynnwys:

### Cyngor Polisi Plant yng Nghymru

Cyngor Polisi Plant yng Nghymru yw'r grŵp aml-asiantaeth traws-sectorol sy'n cynnig cyfle i rannu gwybodaeth, a blaenoriaethu gweithrediad ar y cyd i Plant yng Nghymru ei gymryd yn ei flaen.

### Grŵp Swyddogion Polisi'r Trydydd Sector

Mae'r Grŵp Swyddogion Polisi'r Trydydd Sector yn cael ei hwyluso er mwyn nodi materion allweddol i'r sector ac i ddatblygu ymgyrchoedd i ddylanwadu ar weithgarwch yng Nghymru.

### Grŵp Monitro UNCRC Cymru

Mae Grŵp Monitro UNCRC Cymru yn gynghrair genedlaethol asiantaethau anlywodraethol ac academiaidd, sydd â'r dasg o fonitro a hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru.

### Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan

Mae'r Rhwydwaith hwn yn ceisio hyrwyddo gwaith partneriaeth a strategaethau datblygiadol rhwng sefydliadau mewn perthynas â gwaith eiriolaeth.

### Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA)

Plant yng Nghymru sy'n cadeirio Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA). Mae hyn yn grŵp o sefydliadau gwirfoddol sy'n ceisio amddiffyn a hyrwyddo hawliau plant ag anghenion ychwanegol yng Nghymru.

### Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta

Mae'r Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta ar gyfer y sawl sydd â rôl strategol am gefnogi rhieni yn eu Hawdurdod Lleol. Mae'n rhoi cyfle i gydlynwyr rannu problemau, atebion, polisi ac ymchwil â'u cydweithwyr.

### Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio

Mae Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio Plant yng Nghymru yn ceisio sicrhau bod polisiau mewn perthynas â'r agenda wrth-fwlio, mewn ysgolion a chymunedau, yn cael eu gwerthuso a'u cyd-drefnu.

### Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn glymblaid o sefydliadau sy'n pryderu am dlodi plant. Mae'n lobio am bolisiau ar bob lefel llywodraeth sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

### Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Mae gan Grŵp Adolygu AWCPP fandad a chynrychiolaeth o bob un o Fyrddau Diogelu Plant Lleol a Rhanbarthol Cymru ac asiantaethau partner i adolygu'r AWCPP. Mae'r grŵp hefyd yn cynhyrchu protocolau ac arweiniadau arfer atodol ar sail Cymru gyfan, ac yn cynnig llwyfan i rannu arfer da ledled Cymru.

### Rhwydwaith Rheolwyr Dechrau'n Deg

Mae'r Rhwydwaith hwn yn cwrdd yn chwarterol, gan ddod â Rheolwyr Dechrau'n Deg ynghyd o'r 22 Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru. Mae cyfarfodydd a gweithdai ychwanegol yn cael eu trefnu yn ôl yr angen.

### Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc

Mae Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc yn rhannu problemau a phryderon ac yn cefnogi datblygiad arfer da. Mae hefyd yn cefnogi Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc sy'n cwrdd i nodi materion allweddol sydd o bryder ac sydd â chyfle i gyflwyno eu pryderon i'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol bob blwyddyn.

### Grŵp Hollbleidiol Seneddol dros Blant yng Nghymru

Plant yng Nghymru sy'n gweithredu'n ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Hollbleidiol Seneddol dros Blant yng Nghymru. Mae'r grŵp hwn yn dod ag Aelodau Seneddol ac Arglwyddi Cymru ynghyd i drafod materion sydd heb eu datganoli.

### Grŵp Trawsbleidiol dros Blant yng Nghymru

Plant yng Nghymru sy'n gweithredu'n ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol dros Blant yng Nghymru. Mae'r grŵp hwn yn dod ag Aelodau Seneddol a phartion â diddordeb ynghyd i drafod materion datganoledig pwysig.

### Grŵp Polisi Plant Anabl

Mae'r Grŵp Polisi Plant Anabl yn dylanwadu ar bolisi cyhoeddus yng Nghymru ym maes plant a phobl ifanc anabl.

### Grŵp Cyfnewid Ymarfer Plant a Theuluoedd a'r Grŵp Cyfnewid Ymarfer Hawliau Plant a Phobl Ifanc

Mae'r grwpiau hyn yn cwrdd ledled Cymru i rannu arfer da a datblygu gwaith mewn perthynas â chyfranogiad a hawliau plant.



## Dylanwadu ar arfer, datblygiad polisi ac ymchwil



Mae ein harweiniadau ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o ofal yn edrych ar iechyd a llesiant. Maent wedi cael eu dylunio mewn cydweithrediad â phobl ifanc.

### Brexit a hawliau plant

Mae Plant yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth â chyrrff a chynghreiriau hawliau plant yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop, yn ymgymryd â rhaglen o waith sy'n ystyried goblygiadau Brexit i blant, eu teuluoedd a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi. Hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant ac UNCRC yw sylfaen ein gwaith.

Yn y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc ar 18 Hydref 2017, lansiodd Plant yng Nghymru ac Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc ym Mhrifysgol Abertawe, bapur briffio ar Brexit a Hawliau Plant yng Nghymru. Dilynwyd hyn gan ddigwyddiad bord gron yn Nhachwedd, pan gyfarfu bron 90 o gynadleddwyr a siaradwyr i drafod goblygiadau Brexit. Roedd Plant yng Nghymru hefyd ymhlith y rhai a lofnododd lythyr a alwodd ar Lywodraeth y DU i amddiffyn hawliau plant wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd.

### Prosiect Cymryd mwy o ran mewn Gofal Cymdeithasol

Mae Cymryd mwy o ran mewn Gofal Cymdeithasol yn brosiect tair blynedd, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn ceisio cefnogi iechyd a llesiant plant sy'n derbyn gofal, plant a phobl ifanc anabl a gofawyr sy'n berthnasau.

Yn 2017-18, cynhyrnod Plant yng Nghymru gyfres o arweiniadau iechyd a llesiant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar bynciau fel cysylltiad teuluol, asesiadau iechyd, ac iechyd meddwl.

Rydym wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl i gynhyrchu adnoddau hygyrch sy'n eu helpu i gael lleisio barn am eu cynlluniau asesu a gofal. Rydym hefyd wedi dysgu i bobl ifanc anabl hyfforddi eu cymheiriaid ar gyfranogiad a hawliau.

Mae'r prosiect wedi sefydlu grwpiau hefyd ar gyfer gofawyr sy'n berthnasau ledled Cymru, gan roi cymorth a gwybodaeth gilyddol i ni.

### Tlodi plant

Nod gwaith Plant yng Nghymru ar drechu tlodi plant yw cyfrannu at leihau lefelau tlodi plant, a lliniaru effeithiau tlodi ar blant a theuluoedd. Parhawn i reoli a chyd-drefnu Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (ECPN).

Mae' gwaith eleni wedi cynnwys Arolwg Blyneddol ar dlodi plant a theuluoedd, sy'n bwriadu monitro newidiadau i'r problemau sy'n wynebu teuluoedd. Amlygodd cost gynyddol byw a newidiadau i drethi a budd-daliadau fel problemau pwysig i deuluoedd sy'n gweithio eleni.



Mae ein harweiniadau i bobl ifanc â phrofiad o ofal yn edrych ar iechyd a llesiant. Maent wedi cael eu dylunio mewn cydweithrediad â phobl ifanc.

Cynhaliodd Plant yng Nghymru ddadansoddiad o Aseidiadau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i weld ble mae tloidi yn eistedd o fewn y cynlluniau.

Cynhaliwyd cynhadledd tloidi plant genedlaethol ar 17 Mehefin 2017 i ystyried yr heriau a'r atebion i drechu tloidi yng Nghymru. Rhoddwyd areithiau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant a Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru yn y digwyddiad hwn.

Cyfarfu'r ECPN â Thîm Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ynghylch Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod hefyd â Chynghorwyr o Rondda Cynon Taf i drafod materion tloidi'r misliff.

### **Rhianta cadarnhaol**

Mae Plant yng Nghymru yn cynnal gwaith i gefnogi rhieni a theuluoedd, gan ygnnwys cyd-drefnu'r Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta a hyrwyddo dulliau rhianta cadarnhaol. Yn ysto dy flwyddyn ddiwethaf, mae Plant yng Nghymru wedi cefnogi ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru i hyrwyddo rhianta cadarnhaol, gan gynnwys yr ymgyngoriad ar newid y gyfraith i ddileu amddiffyniad cosb resymol yn achosion ymosod ar blant.

Yn Rhagfyr 2017, cynhaliwyd cynhadledd ar greadigedd yn y blynyddoedd cynnar a chydnerthedd ac, ym Mawrth 2018, cynhaliom ddigwyddiad a ganolbwyntiodd ar raglenni rhianta cadarnhaol ac effaith negyddol trais ar ddatblygiad plant ac iechyd a llesiant yn y dyfodol. Rhoddodd y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol, Huw Irranca-Davies AC, y prif araith, a esboniodd gynlluniau Llywodraeth Cymru i newid y gyfraith.

Ar 21 Mawrth 2018, cyfarfu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc i drafod rhianta cadarnhaol. Siaradodd Andy James am yr ymgyrch amddiffyniad cyfartal sydd ar waith ers bron 18 mlynedd, a phwysigrwydd ymateb i ymgyngoriad Llywodraeth Cymru. Cytunodd Julie Morgan AC gan nodi bod angen i Aelodau'r Cynulliad basio ymlaen neges rhianta cadarnhaol. Cyflwynodd Ceri Wyn Jones a Lowri Lloyd Williams o dîm Cymorth Teuluol Gwynedd eu gwaith ar arfer rhianta cadarnhaol gyda rhieni.

Hefyd hwylusodd Plant yng Nghymru gyfarfod â phaediatregwyr o Sweden, Steven Lucas a Gabriel Otterman, am effaith dileu amddiffyniad cosb resymol yn Sweden. Edrychodd y cyfarfod hwn ar y newid mewn agwedd tuag at rianta cefnogol ers 1979 a phwysigrwydd astudiaethau hydredol.

### **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Yn ystod 2017-18, mae Plant yng Nghymru a Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA) wedi cefnogi datblygiad diwygio deddfwriaeth am anghenion dysgu ychwanegol trwy dystiolaeth a gweithio gyda Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd Plant yng Nghymru dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac Addysg yn ystod cyfnod 1 y broses graffu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn nes ymlaen cynigiodd TSANA ddiwygiadau a anfonom at Llyr Gryffydd AC a Darren Millar AC i'w hystyried. Roeddent yn trafod materion fel mynediad i aseidiadau gwybodaeth, sicrhau bod teuluoedd yn rhan o brosesau penderfynu ar Gynlluniau Dysgu Unigol, a sicrhau bod eiriolaeth ar gael. Hefyd croesawodd Plant yng Nghymru ddiwygiad oddi wrth Darren Miller AC a geisiodd osod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl ar wyneb y Bil.

Derbyniodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018. Bydd Plant yng Nghymru, fel Cadeirydd TSANA, yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru yn ystod proses weithredu'r fframwaith a'r gobaith yw y bydd yn cefnogi mwy o blant ag anghenion dysgu ychwanegol i gyrraedd eu potensial llawn.

### **IRM Cymru**

Mae Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) Cymru yn adolygu penderfyniadau a wneir mewn perthynas ag achosion maethu a mabwysiadu yng Nghymru. Bellach mae'r gwasanaeth hwn wedi ei sefydlu o fewn gwaith Plant yng Nghymru a bydd Plant yng Nghymru yn parhau i gyflenwi gwasanaeth IRM am 2018-19.

Cafodd yr IRM 12 cais yn 2017/18, ac o'r rhain cafodd 10 eu derbyn ac un ei dynnu'n ôl. Roedd pob cais yn ymwneud â gofalwyr maeth (roedd tri ohonynt yn ofalwyr maeth presennol neu ddarpar ofalwyr maeth sy'n berthnasau); roedd dau yn ymwneud ag addasrwydd cychwynol a 10 yn ymwneud â dadgofrestru arfaethedig.

Gallwch ddysgu rhagor am waith IRM Cymru yn [www.irm.cymru](http://www.irm.cymru).

### **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd**

Yn ystod 2017-18, parhaodd Plant yng Nghymru y contract â Llywodraeth Cymru i gyd-drefnu gwybodaeth ar gyfer y rhwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS). Roedd hyn yn cynnwys y newyddion a'r adnoddau diweddaraf bob mis i helpu gyda'u gwaith, a phapur briffio electronig bob mis. Daeth y contract i ben ym Mawrth 2018.

## Dylanwadu ar ddatblygiad arfer a pholisi: Cynrychiolaeth



Emma Sullivan o Plant yng Nghymru a Llyr Gruffydd yn cyflwyno arweiniadau ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o ofal yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Mae Plant yng Nghymru yn cael ei gynrychioli ar nifer o grwpiau ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig sy'n gadael i ni gyfrannu at ddatblygu polisi ac arfer. Yn ystod 2017-18, rydym wedi ymwneud â'r grwpiau canlynol:

### Llywodraeth Cymru

- Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Grŵp Arbenigwyr Iechyd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cyfarfod Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan Bwrdd partneriaeth ystum y corff a symudedd Cymru Gyfan Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid CAFCASS Cymru
- Grŵp Ymgynghorol Cyflenwi CAMHS
- Grŵp Ilywio Adolygu Marwolaethau Plant
- Grŵp Rhanddeiliaid Gofal Plant
- Grŵp Ymgynghorol Hawliau Plant
- Grŵp Cyfeirio Canllawiau Comisiynu i Blant ag Anghenion Cymhleth
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Parhaus
- Is-grŵp Diwygio'r Cwricwlwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
- Grŵp Rhanddeiliaid Diwygio'r Cwricwlwm
- Cyfnewidfa arfer a gwybodaeth am daliadau uniongyrchol
- Fforwm Cydraddoldeb Anabledd

- Grŵp Cymorth Ymgynghorol ar Anabledd
- Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid Cynhwysiant Ariannol
- Grŵp Llywio Byw yn Annibynnol ar gyfer Pobl Anabl
- Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant
- Bwrdd Gweithrediadau Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant
- Bwrdd Partneriaeth y Gweinidog ar Ofal Cymdeithasol
- Dull Cenedlaethol o Weithredu Eiriolaeth Statudol
- Bwrdd Cenedlaethol Gofal Sylfaenol
- Is-grŵp Gofal Preswyl Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant
- Bord Gron Arweinwyr Gofal Cymdeithasol
- Grŵp Technegol Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
- Is-grŵp Niwroddatblygiadol T4CYP
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
- Cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd â phob Ysgrifennydd Cabinet a Gweinidog
- Gweithgor Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
- Bwrdd Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP)
- Grŵp Ymgynghorol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Is-grŵp Pan Fydda i'n Barod

*“Mae Plant yng Nghymru yn bartner rhagorol i Eurochild a theimlwn y cawn ein cefnogi’n dda i ddeall y cyd-destun polisi yng Nghymru; Plant yng Nghymru yw un o’r partneriaid allweddol wrth ddod â safbwynt hawliau plant i mewn i’r drafodaeth ar Brexit.”*  
– Ysgrifennydd Cyffredinol Eurochild

#### Grwpiau eraill (tu allan i Lywodraeth Cymru)

- Rhwydwaith Cwrdd Grwpiau Teuluol Cymru Gyfan
- Y Cynghrair Gofalwyr
- ‘Sdim Curo Plant! Cymru
- Rhanddeiliaid Comisiynydd Plant Cymru
- Grŵp Llywio Drill Fun and Friendship
- End Child Poverty UK
- Bwrdd rheoli Eurochild
- Rhwydwaith Partneriaid Cenedlaethol Eurochild (NPN)
- Grŵp Llywio Cyfranogiad Eurochild
- Y Gynghrair Tlodi Bwyd
- Grŵp y Glymblaid Tlodi Tanwydd
- Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol
- Fforwm Rhyngwladol dros Les Plant
- Grŵp Llywio Measuring the Mountain
- Fforwm Gwasanaeth Cyngor Ariannol (MAS) Cymru
- Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Blant
- Canolfan Genedlaethol Ymchwil i Iechyd a Llesiant y Boblogaeth NCPHWR
- Grŵp Ymgynghorol NEA Cymru
- Bwrdd Chwarae Cymru
- Grŵp Llywio Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) Cymru Well Wales
- Tasglu Glasoed Cymru Well Wales Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bwrdd Rhaglen Gydweithredol y 1000 Diwrnod Cyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bwrdd Rhanddeiliaid Gwybodaeth Iechyd i Rien Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Grŵp Llywio Adolygiad Cenedlaethol o Farwolaethau Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyfarfod y Rhwydwaith Cyfranogiad Rhanbarthol
- Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant
- Grŵp Llywio Gofal a Chymorth yn y Cartref Gofal Cymdeithasol Cymru

- Grŵp Barnu Acoladau Gofal Cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru
- Rhwydwaith Rhieni De Cymru
- Grŵp Hollbleidiol Seneddol (APPG) ar Blant yng Nghymru
- Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru Plant a Phobl Ifanc
- Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni
- Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Anabled
- Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Blant sy’n Derbyn Gofal
- Rhwydwaith Hawliau Plant y DU
- Clymblaid y DU ar Hawliau Plant
- Grŵp Polisi Ymgynghorol Lleisiau o Ofal
- Bwrdd Ymddiriedolwyr Lleisiau o Ofal
- Fforwm Polisi Cydffederasiwn GIG Cymru
- Bwrdd WCVA
- Fforwm Cymdeithas Sifil WCVA ar Brexit
- Clymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol WCVA
- Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector WCVA
- Clymblaid Ffoaduriaid Cymru
- Clymblaid Ffoaduriaid Cymru
- Cyfarfod Rhanbarthol y Rhwydwaith Cyfranogiad



Cynhaliodd Plant yng Nghymru a Cymru Ifanc stondinau mewn amrywiol ddigwyddiadau trwy gydol 2017-18.



## Influencing practice and policy development: Consultation

Mae Plant yng Nghymru yn ymateb i ymgynghoriadau ar ran ein haelodau. Yn ystod 2017-2018, gwnaethom ymateb i'r ymgynghoriadau a'r ymholiadau canlynol:



*Cynadledwr yn ein Cynhadledd Iechyd Ieuentid yn annerch y gynulleidfa gyda chwestiwn am ddarpariaeth gwasanaethau*

### **Ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y 1,000 Diwrnod Cyntaf**

Canolbwyntiodd Ymateb Plant yng Nghymru i ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y 1000 cyntaf ar gryfderau a heriau mewn perthynas â darparu gwasanaethau a chymorth i rieni. Croesawom ffocws rhaglen y 1000 Diwrnod Cyntaf a chefnogwn ei nod i ddod ag asiantaethau ynghyd i weithio'n gydweithredol. Cytunwn mai ymgyrchoedd rhianta cadarnhaol, gyda chynghor a gwybodaeth, yw'r ffordd orau o gefnogi dulliau amgen yn lle cosb gorfforol.

### **Safonau Eiriolaeth Cenedlaethol a Fframwaith Canlyniadau**

Cyhoeddodd Plant yng Nghymru ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar safonau eiriolaeth cenedlaethol a Fframwaith Canlyniadau. Dywedodd yr ymateb y bydd prosesau monitro systemataidd a thryloyw yn hanfodol fel sylfaen i'r Fframwaith. Pwysleisiodd un rhan yn unig o'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yw'r fframwaith ac oni bai bod cydymffurfiaeth lawn yn cael ei chyflawni, ni fydd ansawdd comisiynu yn cyd-fynd â'r bwriad.

### **Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad**

Rhoddodd ymateb Plant yng Nghymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygiadau i lywodraeth leol ein barn ar waith rhanbarthol mewn gwahanol feysydd, gan gynnwys cydweithrediad rhanbarthol ar asedau i wella rheolaeth adnoddau, tai a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunom hefyd y dylai fod gan Lywodraeth

Cymru hyblygrwydd i orchymyn swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni'n rhanbarthol.

**Adolygiad Seneddol o Iechyd and Gofal Cymdeithasol**  
Mynychodd Plant yng Nghymru lansiad yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Abertawe, a chwrdd â swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru i gyfrannu ar yr adolygiad, gan godi materion plant yn ystod yr ymgynghoriad. Cymerom ran hefyd mewn cynhadledd gyda'r Panel Adolygu.

**Cymorth i fyfyrwyr sy'n preswyllo'n arferol yng Nghymru**  
Amlygodd ymateb Plant yng Nghymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ariannu myfyrwyr sy'n preswyllo yng Nghymru yr heriau mae pobl ifanc â phrofiad o ofal a gofalwyr ifanc yn eu hwynebu pan fyddant yn dymuni ymgymryd ag addysg uwch. Cefnogodd ein hymateb ganfyddiadau Adolygiad Donaldson am gefnogi'r myfyrwyr hyn.

### **Goblygiadau Bil yr Undeb Ewropeaidd (Tynnu Allan) a'i oblygiadau i Gymru**


Plant yng Nghymru gave a written ymateb to the gydymgyngoriad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar oblygiadau Bil yr Undeb Ewropeaidd (Tynnu Allan) a'i oblygiadau i Gymru. Canolbwyntiodd ein hymateb ar yr angen i amddiffyn hawliau plant yng Nghymru wrth i ddeddfwriaeth yr UE gael ei chymryd i mewn i'r gyfraith ddomestig, gan gynnwys Siarter yr Undeb Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol.

### **Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Blant a Phobl Ifanc â Phrofiad o Ofal**

Ymatebodd Plant yng Nghymru i ymgynghoriad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am yr ymchwiliad i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Cred Plant yng Nghymru y dylai'r sawl sydd mewn gofal gael eu trin fel plant yn bennaf oll, gyda'u hanghenion ac uchelgeisiau eu hun, ond mae'r plant a phobl ifanc hyn yn wynebu heriau ychwanegol a dylent gael eu cefnogi'n briodol. Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar gael gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal.

### **Ymchwiliad i iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yng Nghymru**

Cyhoeddodd Ymateb Plant yng Nghymru i ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru i iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Edrychodd yr ymgynghoriad ar CAMHS arbenigol, cyllido, pontio i wasanaethau oedolion



*Cynhyrnod Plant yng Nghymru adroddiad yn dilyn ein digwyddiad rownd bwrdd, a edrychodd ar Brexit a hawliau plant.*

a chysylltiadau ag addysg. Yn ein cyflwyniad i'r ymchwiliad, amlygodd Plant yng Nghymru ymyrraeth gynnar ac atal fel bod yn allweddol i iechyd emosiynol a meddyliol, a'r angen am ymagwedd gysylltiedig at wasanaethau.

### **Diwygio etholiadol mewn llywodraeth leol yng Nghymru**

Ymatebodd Plant yng Nghymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio etholiadol mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Edrychodd yr ymgynghoriad hwn ar nifer o newidiadau i'r system bleidleisio yng Nghymru, gan gynnwys gostwng yr oedran pleidleisio i 16, cymhwyster a sut y gall pobl bleidleisio. Cynhaliodd Plant yng Nghymru arolwg ymhlith oedolion a phobl ifanc i lywio ein hymateb, a chytunom â'r cynigion i ostwng yr oedran pleidleisio i 16, ac â diwygiadau sy'n bwriadu cynyddu cyfranogiad mewn democratiaeth yng Nghymru.

### **Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Blant a Phobl Ifanc â Phrofiad o Ofal**

Gweithiodd Plant yng Nghymru mewn partneriaeth â Llesiau o Ofal Cymru i ymgysylltu a pharatoi pobl ifanc i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor i ategu ein cyflwyniad ysgrifenedig. Canolbwyntiodd ein hymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ar wariant a gwerth am arian gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Pwysleisiodd y dylai plant sy'n derbyn gofal gael eu trin fel unigolion a phwysigrwydd dull sy'n seiliedig ar hawliau.

### **Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Iechyd, ymchwiliad y Pwyllgor Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)**

Cefnogodd Plant yng Nghymru nod y Bil sef lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol gormodol, a bod hynny'n gyson ag ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at flaenoriaethu 'Atal' niwed fel un o'r pum dull o weithio a atgyfnerthir drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Pwysleisiodd y byddai addysg yn rhan bwysig o wneud y ddeddfwriaeth yn effeithiol.

### **Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu Amddiffyniad Cosb Resymol**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol mewn achosion o ymosod ar blant. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn pwysleisiodd bwysigrwydd amddiffyn llesiant plant. Cytunom y byddai'r cynigion yn helpu i amddiffyn hawliau plant, a dywedom y dylai gael ei hategu gan negeseuon cryf a gwybodaeth am rianta cadarnhaol. Pwysleisiodd y dylai'r deddfwriaeth newydd fod yn eglur ac yn ddiamwys.

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – diwygiadau i'r rheoliadau a'r cod ymarfer mewn perthynas â llety diogel a leoliadau plant tu allan i'w hardal**

Cytunodd Plant yng Nghymru â chynigion y dylai'r terfyn amser ar gyfer hysbysiadau o leoliadau brys tu allan i ardal gael ei leihau o bum diwrnod gwaith i 24 awr, gan fod tystiolaeth gynyddol bod y cyfno dhybsysu presennol o bum diwrnod yn gosod rhai plant mewn perygl cynyddol o CSE, mynd ar goll neu ohirio darpariaeth cymorth ac ymyrraeth.

### **Teithio â disgownt ar fysiau i bobl ifanc yng Nghymru**

Cynhaliodd Plant yng Nghymru arolwg i lywio'n hymateb i'r ymgynghoriad hwn. Dywedodd ymatebwyr y byddai tâl is am deithio ar fysiau'n bwysig iawn yn newidiadau teithio pobl ifanc. Cytunodd y mwyafrif nad yw'r ystod oedran presennol i fod yn gymwys am ddisgownt yn ddigonol, gyda 25 fel yr ystod oedran mwyaf poblogaidd. Roedd cefnogaeth hefyd am ddisgownt uwch o 50%.

### **Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig – rheoliadau diwygio a chod ymarfer**

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion hyn, hwylusodd Plant yng Nghymru nifer o ddigwyddiadau i geisiau barn ar y newidiadau arfaethedig. Cyflwynwyd yr ymatebion hyn i Lywodraeth Cymru, ond hefyd cyflwynom ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad ar wahân. Canolbwyntiodd yr ymatebion ar faterion sy'n ymwneud ag addysg, cyllid a chefnogaeth.

## Plant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithlu mwy gwybodus



*Catriona Williams OBE, Prif Weithredydd, gyda siaradwyr o'r digwyddiad Bord Gron ar Brexit a Hawliau Plant, Tachwedd 2017*

Mae Plant yng Nghymru yn darparu gwasanaeth gwybodaeth i'w aelodau, gyda newyddion ac adnoddau cyfredol ar ddatblygiadau yn y sector plant. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau a phapurau briffio. Gwelir y manylion isod.

### Gwefan Plant yng Nghymru

Mae gwefan Plant yng Nghymru, a welir yn [www.childreninwales.org.uk](http://www.childreninwales.org.uk), yn rhoi newyddion a gwybodaeth i aelodau a'r sector plant ehangach am ddatblygiadau yn y sector plant. Mae adran Polisi y wefan yn cynnwys y newyddion diweddaraf am ddeddfwriaeth a datblygiadau eraill sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Mae'r wefan yn ddull pwysig o rannu gwybodaeth a chaiff ei ddiweddarau'n ddyddiol gyda gwybodaeth polisi, adnoddau a newyddion. Yn ystod 2017-18, derbyniodd y wefan 71,955 o ddefnyddwyr ac roedd ganddi 273,212 o ymweliadau â thudalennau yn gyfan gwbl.

### Gwefan Cymru Ifanc

Mae gwefan Cymru Ifanc, sydd ar gael yn at [www.youngwales.wales](http://www.youngwales.wales), yn cefnogi'n gwaith cyfranogiad. Mae'n fan canolog i wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud gan ffoymau ieuencid, ysgolion, cyrff partner ac unigolion ledled Cymru. Mae'r wefan hefyd yn gadael i ni rannu gwybodaeth am waith Cymru Ifanc a chyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan ac i'w lleisiau gael eu clywed. Eleni, mae'r wefan wedi parhau i ddenu pobl ifanc a chyfanswm yr ymwelwyr â'r wefan oedd 54,397, a chyfanswm y trawiadau oedd 452,271.

### Cylchgrawn Plant yng Nghymru

Mae cylchgrawn Plant yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi'n chwarterol gan roi crynodeb o ddatblygiadau polisi oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU, yn

ogystal â'r newyddion diweddaraf oddi wrth Plant yng Nghymru a'n haelodau. Mae'n cynnwys nodweddion a chyfweiliadau manwl ar bynciau pwysig a cholofnau rheolaidd gan Gomisiynydd Plant Cymru a MEIC Cymru. Eleni, cyhoeddwyd y cylchgrawn ym Mehefin, Medi a Rhagfyr 2017 a Mawrth 2018. Trafodom ystod eang o bynciau fel:

- Etholiad Cyffredinol 2017
- Data mawr ac iechyd meddwl
- Addysg Rhyw a Pherthnasau
- Ymdrin â thrais yn erbyn menywod a merched
- Amddiffyniad cyfreithiol cyfartal i blant
- Brexit a hawliau plant
- Cam-fanteisio llinellau sirol
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Mae modd lawrlwytho'r cylchgronau o [www.plantynghymru.org.uk/adnoddau-2/cylchgrawn/](http://www.plantynghymru.org.uk/adnoddau-2/cylchgrawn/)

### Papurau briffio

Mae Plant yng Nghymru yn paratoi ac yn dosbarthu papurau briffio ar bynciau penodol i'n haelodau. Rhydd y rhan wybodaeth fanylach am gyfreithiau a pholisïau.

Yn ystod 2017-18, cynhyrchom y canlynol:

- Papur Briffio Etholiad Cyffredinol 2017
- Papur Briffio Etholiad Cyffredinol 2017
- Brexit & Hawliau Plant yng Nghymru
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

*“O ran newyddlen ECPN a newyddlen electronig Plant yng Nghymru, does yna ddim byd arall sy'n debyg ac mae'n bwysig iawn bod gan sefydliadau'r wybodaeth ddiweddaraf.”  
Aelod o Rwydwaith Dileu Tlodi Plant*





Mae gwefan Plant yng Nghymru yn cynnwys manylion am ein gwaith a'n digwyddiadau, ynghyd â diweddariadau polisi ac adnoddau

**Gwasanaethau e-briffio**

Mae Plant yng Nghymru yn cynhyrchu nifer o bapurau briffio electronig ar gyfer aelodau a rhwydweithiau.

Mae ein briffio electronig i aelodau yn cael ei gylchrededg yn wythnosol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n haelodau am y datblygiadau polisi a'r newyddion.

Mae newyddlen Cymru Ifanc yn cael ei hanfon allan yn fisol gyda'r newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am bobl ifanc a gweithwyr cyfranogiad.

Mae dogfennau briffio electronig yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant a'r rhwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd.

**Cyfringau cymdeithasol**



Mae Plant yng Nghymru yn defnyddio Twitter i hyrwyddo ei weithgareddau a'i adnoddau, yn ogystal â pholisïau a

dogfennau newydd gan ddefnyddio'n cyfrifon, @childreninwales a @plantynghymru.

Roedd gan gyfrif @childreninwales 6,304 o ddilynwyr ar ddiwedd Mawrth 2018, ac roedd gan gyfrif @plantynghymru 926 o ddilynwyr. Hefyd mae gan Cymru Ifanc gyfrif Twitter ar wahân, @YoungwalesCIW yr oedd ganddo 2,639 o ddilynwyr ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwybodaeth yn cael ei hyrwyddo hefyd ar ein tudalennau Facebook am Plant yng Nghymru a Cymru Ifanc.

**Gwasanaethau desg gymorth ac arwyddbostio**

Mae gan Plant yng Nghymru wasanaeth gwybodaeth ac arwyddbostio i aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn y sector plant. Yn ystod 2017-18 rhesom gyngor ar ystod eang o faterion gan gynnwys gwasanaethau eiriol, diogelu, darpariaeth gofal plant, gofal gan berthynas, a materion addysg.



## Cynadleddau a digwyddiadau



*Joshua Chohan, o Fwrdd Prosiect Cymru Ifanc, yn anersch cynadleddwyr yn Nigwyddiad Dathlu Cymru Ifanc*

Mae Plant yng Nghymru yn trefnu cynadleddau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn i roi gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf i'n haelodau a'r sector plant ehangach. Mae ein digwyddiadau yn cynnig cyfleoedd i gynadleddwyr gyfnewid gwybodaeth a rhwydweithio. Yn ystod 2017/18 cynhaliodd Plant yng Nghymru y digwyddiadau canlynol:

### **Cynhadledd Tlodi Genedlaethol O Dlodi i Ffyniant, 21 Mehefin 2017**

Ystyriodd y gynhadledd hon y gwahanol faterion, heriau ac atebion i ymdrin â thlodi plant yng Nghymru, gan gynnwys cynlluniau Llywodraeth Cymru, yn sgîl Cymunedau'n Gyntaf, ar adeiladu Cymunedau Cydnerth sy'n hoelio sylw ar gyflogaeth, y blynyddoedd cynnar a grymuso. Rhoddwyd y prif araiith gan Carl Sargeant AC, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

### **Fforwm Cenedlaethol Plant yng Nghymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol, 8 Awst 2017**

Cynhaliodd Plant yng Nghymru ei fforwm cenedlaethol yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyda Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, a roddodd gyflwyniad ar Brexit a'r effaith ar blant a phobl ifanc. Cadeiriwyd y digwyddiad gan Llyr Huws Gruffydd AC.

### **Sesiawn Hawl i Holi Pobl ifanc, 24 Hydref 2017**

Yn y digwyddiad Question Time hwn, a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2017, daeth pobl ifanc ynghyd o bob rhan o Gymru i holi gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â hawliau plant. Roedd y digwyddiad, a drefnwyd gan Cymru Ifanc yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, yn cynnwys pobl ifanc yn holi panel amrywiol a gynhwysodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC; Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru; Dylan Jones, Dirprwy Bennaeth Ysgol Glan Clwyd; Athro y Fonesig Sue Bailey a Steve Davies, Cyfarwyddwr Addysg yn Llywodraeth Cymru. Cadeiriwyd y digwyddiad gan Dr David Williams, cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru.

### **Uwchgynhadledd Ieuentid Iechyd, 4 Tachwedd 2017**

Ar 4 Tachwedd, daeth 85 o blant, pobl ifanc a gweithwyr ynghyd ar gyfer Uwchgynhadledd Genedlaethol gyntaf Ieuentid Iechyd yng Nghymru, a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cymru Ifanc. Roedd y digwyddiad yn gyfle i bobl ifanc ddysgu rhagor am iechyd a rhannu eu barn. Roedd modd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithdai a edychodd ar iechyd meddwl, iechyd rhywiol a pherthnasau, a'r llwybr a ddewiswch/ y llwybr sy'n dod i'ch rhan, a edrychodd ar faterion sy'n effeithio ar iechyd y mae gennym ddewis amdanynt fel deiet, a'r rhai mae'n rhaid eu rheoli, fel salwch cyson.

### **Cynhadledd Gofalwyr Ifanc, 2 Rhag 2017**

Cynhaliwyd y gynhadledd fel rhan o'n gwaith cyd-drefnu'r Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc yn gweithio i ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus a chraffu ar ddeddfwriaeth yng Nghymru er budd gofalwyr ifanc. Arweiniwyd y digwyddiad hwn gan ofalwyr ifanc ac

*“Roedd y prif siaradwyr  
a'r gweithdai fel ei gilydd yn  
ddefnyddiol. Amrywiaeth dda!”*

**Cynadleddwr yng Nghynhadledd y  
Blynyddoedd Cynnar 2 Rhagfyr 2017**

edrychodd ar brofiadau pobl ifanc o fod yn ofalwr trwy weithdai a gweithgareddau difyr.

### **Cynhadledd Blynyddoedd Cynnar 2017 – Creadigedd, Cydnerthedd a Llesiant yn y Blynyddoedd Cynnar, 6 Rhagfyr 2017**

Canolbwyntiodd cynhadledd blynyddoedd cynnar Plant yng Nghymru ar ymchwil, polisi ac ymyriadau mewn perthynas â creadigedd, cydnerthedd a llesiant. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniadau oddi wrth yr Athro Gordon Harold a Dr Jane Waters am yr ymchwil ddiweddaraf i ffactorau genetig ac amgylcheddol mewn datblygiad, Angela Rogers am rôl y celfyddydau a chreadigedd a Hanna Heinonen am Fodel Canolfannau Teuluol y Ffindir. Dilynwyd hyn gan weithdai ar sut y gall chwarae a chreadigedd gael eu defnyddio i gefnogi plant.

### **Cynhadledd Rhianta Cadarnhaol, 14 Mawrth 2018**

Canolbwyntiodd y gynhadledd hon ar raglenni rhianta cadarnhaol, ac effaith negyddol trais ar ddatblygiad plant a'u hiechyd a llesiant yn y dyfodol. Cyd-drefnwyd y digwyddiad gan NSPCC Cymru, BASPCAN ac IPSCAN. Y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol, Huw Irranca-Davies AC, a roddodd y prif araith. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar yr adeg hon am eu cynlluniau i ddileu amddiffyniad cosb resymol mewn achosion o ymosod ar blant.

### **Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data: Beth yw'r goblygiadau? 14 Mawrth 2018**

Cyd-drefnodd Plant yng Nghymru sesiwn Holi ac Ateb gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i helpu'r sawl a oedd yn bresennol i gael dealltwriaeth o'r Rheoliad Cyffredinol newydd ar Ddiogelu Data (GDPR) sy'n ddaeth i rym ym Mai 2018. Trafododd y sesiwn elfennau allweddol y Rheoliad a'r hyn y bydd rhaid i unigolion a sefydliadau ei wneud i gydymffurfio.

### **Digwyddiad dathlu Cymru Ifanc – #CelebrateYW18, 23 Mawrth 2018**

Cynhaliwyd y digwyddiad hwn i ddathlu llwyddiannau Cymru Ifanc yn y tair blynedd ddiwethaf ac edrych ymlaen at y dyfodol a beth ddylai'n blaenoriaethau ni fod.

Roedd hyn yn cynnwys gweithdai bychan a llwyr o weithgareddau difyr fel sgiliau syrcau, sgiliau troellwr a rapio. Hefyd roedd Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn bresennol a chynnal sesiynau holi ac ateb, yn ogystal â rhoi areithiau am eu gwaith.



*Pobl ifanc yn rhannu eu syniadau am les yn y Uwchgynhadledd Ieuencid Iechyd*



## Hyfforddiant



*Cyfranogwyr ar gwrs hyfforddiant Plant yng Nghymru yn dysgu am ddatblygiad ymenyddiau plant a phwysigrwydd y blynyddoedd cynnar*

Plant yng Nghymru yw'r darparwr pennaf cyrsiau hyfforddiant aml-ddisgyblaeth o'r radd flaenaf sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr plant a theuluoedd sy'n gweithio yn y sectorau statudol, annibynnol a'r trydydd sector. Anelir y cyrsiau hyfforddiant at bobl sy'n gweithio yng Nghymru, ac yn adlewyrchu cyd-destun, polisi a deddfwriaeth Cymru.

Gallwn fanteisio ar wybodaeth ac adnoddau in tîm staff ein hunain, a'r meysydd arbenigedd maent yn eu cynrychioli, ac mae gennym fynediad i rhwydwaith cenedlaethol o unigolion a sefydliadol arbenigol, i gynyddu ystod y cyrsiau hyfforddiant y gallwn eu cyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru.

### Hyfforddiant agored

Yn ystod 2017 - 18, cynhaliodd Plant yng Nghymru raglen gynhwysfawr o 94 o gyrsiau hyfforddiant agored. Ychwanegwyd rhai pynciau newydd mewn ymateb i geisiadau oddi wrth y gweithlu gan gynnwys Llinellau Sirol, Ymateb i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod a Gweithio gyda Rhieni Gelyniaethus ac Anghydweithredol. Rydym yn parhau i dderbyn cryn dipyn o ddi-ddordeb mewn pynciau craidd fel Hawliau Plant, Diogelu, Dulliau â Ffocws ar Ymlyniad, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Gweithio gyda Phobl Ifanc LGBTQ a Chyfweld Cymelliannol.

### Hyfforddiant a gomisiynwyd

Un o elfennau allweddol hyfforddiant Plant yng Nghymru yw darparu cyrsiau 'mewnol' i grwpiau staff, pan gaiff y cynnwys ei deilwra i fodloni anghenion sefydliadau. Ymhlith y ceisiadau rheolaidd mae amddiffyn plant ar wahanol lefelau, sy'n amrywio o 'godi ymwybyddiaeth' sylfaenol i gyrsiau ar gyfer y sawl sydd â chyfrifoldeb Person Dynodedig. Mae cyrsiau poblogaidd eraill yn cynnwys Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol, Hawliau Plant a Chyfranogiad, Meithrin Cydnerthedd ymhlith Pobl Ifanc ac E-Ddiogelwch.

Mae rhestr lawn o gyrsiau hyfforddiant sydd ar gael at y dudalen we hyfforddiant a gomisiynir. <https://www.childreninwales.org.uk/items/category/commissioned-training/>

Mae Plant yng Nghymru hefyd yn parhau i ddarparu nifer fawr o sesiynau drwy ein gwaith contract ag amrywiol sefydliadau, gan gynnwys hyfforddiant i'r holl staff o fewn deintyddfeydd a Chanolfannau Ôl-raddedig yng Nghymru. Cawn ein contractio i ddarparu hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2 Deoniaeth Cymru ar gyfer Addysg Ôl-raddedig i Ddeintyddion.

**Achrediad**


Mae'n dda gennym gynnig cyrsiau hyfforddiant achrededig ar ystod o bynciau gydag Agored Cymru fel ein corff dyfarnu. Parhawn i dderbyn adroddiadau rhagorol oddi wrth Agored Cymru gyda'r Adolygwyr Ansawdd yn sylwi:

"Mae cyswllt y ganolfan yn parhau i reoli system sicrhau ansawdd fewnol effeithiol a dibynadwy." "Mae gan y Rheolwr Ansawdd bob hyder y bydd y ganolfan hon yn parhau i gyflenwi darpariaeth o'r radd flaenaf." "Mae adborth oddi wrth yr aseswr yn bositif, yn galonogol, yn ddatblygiadol ac yn adeiladol lle bo'n berthnasol. Mae dyfarniadau'r aseswr yn gadarn."

**Grant Cyflenwi Plant a Theuluoedd**

Mae'r arian hwn gan Lywodraeth Cymru yn galluogi tîm hyfforddiant Plant yng Nghymru i gyflwyno wyth sesiwn ryngweithiol am ddim ar Dechnegau Cyfranogol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn rhoi ystod eang o weithgareddau ymarferol i'r cyfranogwyr y cânt eu defnyddio gyda beth bynnag sy'n cyfyngu ar y lle a'r adnoddau maent yn gweithio ynddynt.

Cyflwynwyd pedair sesiwn ddi-dâl o'n cwrs 'Darlun Ehangach' poblogaidd sy'n edrych ar gyd-destun penodol Cymru mae pobl yn gweithio ynddo.



Mae hyn yn helpu i roi dealltwriaeth o raglenni, polisi a deddfwriaeth plant a theuluoedd a mentrau newydd sy'n cael eu datblygu.

Mae'r gweithdai amlasiantaeth hyn yn bwriadu cefnogi ystod o gyrff i ddeall yn well sut mae eu gwaith yn ffitio i mewn i'r cyd-destun polisi ehangach sy'n esblygu yng Nghymru, a sut i adeiladu ar eu cryfderau ac addasu i dirlun sy'n newid.



Rhai o'r syniadau o gwrs hyfforddiant am gefnogi gofalwyr, a edrychodd ar bwysigrwydd iechyd meddwl

## Llywodraethu



*Dr Dave Williams, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru a'r Cyngor Polisi*

Mae Plant yng Nghymru yn cael ei reoli gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n delio â chyllid a llywodraethu'r sefydliad. Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cynnwys 12 aelod, naw ohonynt wedi ei hethol o aelodaeth y sefydliad a thri arall sy'n cael eu penodi. Mae Ymddiriedolwyr yn gwasanaethu am hyd at ddau dymor mewn swydd o dair blynedd yr un.

Aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn ystod 2017-18 oedd:

- Dr David Williams, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (Cadeirydd)
- Kara Williams (Trysorydd)
- Ann Shabbaz, Hafan Saff Cyf
- Hannah Williams, Hospis Teuluol Tŷ Hafan
- Jane Newby, Prifysgol De Cymru
- Yr Athro David Egan, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Yr Athro Jonathan Scourfield, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd
- Dr Sarah Jones
- Sarah Crawley, Barnardo's Cymru
- Mike Shooter
- Diane Daniel, Tros Gynnal Plant
- Nia John, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Yr Athro Emeritws Nigel Thomas

### Cyngor Polisi

Mae Cyngor Polisi Plant yng Nghymru yn gwneud argymhellion am faterion polisi plant a phobl ifanc i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, ac yn helpu i lywio blaenoriaethau a gwaith y sefydliad.

Mae Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru yn cael eu gwneud yn aelodau'r Cyngor Polisi yn awtomatig.

### Corff Cynrychioliadol (a benodir, hyd at 10 aelod)

- ACPO
- ADEW (a gynrychiolwyd gan Pierre Bernhard Grout, WLGA)
- ADSS (a gynrychiolwyd gan Leighton Rees, Cyngor Bwrdeistref Sirol Dinbych)
- Cydffederasiwn y GIG
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (a gynrychiolwyd gan Rachel Shaw)
- Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru (a gynrychiolwyd gan Dr Nia John)
- WLGA (a gynrychiolwyd gan Stewart Blythe, Joanna Davies & Catherine Davies, WLGA)

### Aelodau Etholedig

- Brigitte Gater, Action for Children Gweithredu dros Blant
- Cherrie Bija, Bwrdd Esgobaethol Abertawe ac Aberhonddu dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol
- Deborah Jones, Lleisiau o Ofal (Cymru)
- Des Mannion, NSPCC Cymru
- Diane Daniel, Tros Gynnal Plant
- Dr Elspeth Webb
- Dr Susan Evans, Prifysgol Bangor a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Gwilym Roberts, Relate Cymru
- John Gallanders, AVOW
- Carl Cooper, PAVO
- Mary Powell-Chandler, Achub y Plant
- Paul Glaze, CWVYS
- Uzo Iwobi, Cyngor Hil Cymru
- Helen Mary Jones, Ieuenctid Cymru
- Lynne Osborne, Coleg Cymunedol YMCA Wales

### Sylwedyddion

- • CAFCASS Cymru
- • Llywodraeth Cymru
- • Comisiynydd Plant Cymru
- • Loteri Fawr
- • Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid



## Aelodaeth

Mae Plant yng Nghymru yn cynnig cynllun aelodaeth i unigolion a sefydliadau sy'n ymddiddori mewn gwella bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru.

Daw'r aelodau o'r trydydd sector a'r sectorau statudol a phreifat ac yn cynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, cyrff trydydd sector, adrannau prifysgol, ysgolion, meithrinfeydd, canolfannau teuluol ac unigolion.

Yn ystod 2017-18, roedd gan Plant yng Nghymru 216 o aelodau, a oedd yn cynnwys 159 o sefydliadau a 47 aelod unigol. Cofrestrodd 10 unigolyn arall, sy'n gweithio i aelodau sefydliadol, am aelodaeth atodol er mwyn iddynt gael derbyn gwybodaeth yn uniongyrchol.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n haelodau am eich cefnogaeth barhaus.

### Aelodau sefydliadol

Cyngor Sir Ceredigion  
 Cyngor Sir Benfro  
 Cyngor Caerdydd  
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
 Cyngor Sir Casnewydd  
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
 Cyngor Sir Powys  
 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
 Iechyd Cyhoeddus Cymru  
 Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr  
 Cyngor Bro Morgannwg - Dechrau'n Deg  
 Cyngor Bro Morgannwg - Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc  
 Prifysgol Metropolitan Caerdydd  
 Ysgol Gynradd West Park  
 Ysgol Syr Thomas Jones  
 Dinas a Sir Abertawe - Adran Hyfforddiant Staff  
 Prifysgol Caerdydd  
 Ysgol Gynradd Gwyrosydd  
 Prifysgol Aberystwyth  
 Cyngor Sir Gâr - Dechrau'n Deg  
 CBS Castell-nedd Port Talbot – Tîm Plant & Teuluoedd  
 Children's Early Intervention Trust  
 CAF/CASS Cymru  
 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)  
 Ysgol Maesinla  
 Amgueddfa Cymru - National Museum Wales  
 Canolfan Plant Llwynhendy  
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Gwasanaeth Ieuencid  
 Ysgol Baratoadol Rydal Penrhos  
 Cyngor Sir Dinbych  
 Ysgol Gynradd Gymunedol Penygarn  
 UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)  
 Ysgol Gynradd Millbrook  
 Coleg Chweched Dosbarth Caerdydd  
 Cyngor Ynys Môn - Dechrau'n Deg  
 CAPIC (Collaboration for Accident Prevention Injury Control)



*Karen and Mike from Children in Wales discussing their ideas at our staff training day*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot  
 Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  
 Coleg St David's  
 Cyngor Abertawe - Prevention & Early Intervention  
 Coleg y Cymoedd  
 Ysgol St Martin's  
 Ysgol Gyfun Gwynllyw  
 Ysgol St Michael's  
 UNICEF UK  
 Coleg Gŵyr Abertawe  
 Gweithredu dros Blant  
 Calon Cymru Fostering  
 Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar  
 Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant  
 Foster Care Associates  
 Care for the Family  
 Cyngor Ar Bopeth Cymru  
 Change, Grow, Live  
 Hafan Cymru  
 Llamau Ltd  
 United Welsh  
 NSPCC  
 Barnardo's Cymru  
 Mirus Wales  
 Cymdeithas Tai Charter  
 Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs  
 Groundwork Cymru  
 Sustrans Cymru  
 Llenyddiaeth Cymru  
 Cymorth i Fenywod Caerdydd  
 Tŷ Hafan  
 Gofal Plant Landsker  
 TSW Training Ltd  
 TACT Cymru  
 Achub y Plant  
 Home Start  
 Voice  
 SNAP Cymru

## Plant yng Nghymru

---

Valleys Kids  
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol yn Wrecsam  
Safe Families for Children Cymru  
ProMo-Cymru  
Groundwork Gogledd Cymru  
MENCAP Cymru  
Mental Health Matters Cymru  
Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân  
Canolfan Therapi Plant Bobath  
BBC Plant mewn Angen  
Cymorth i Fenywod Cymru  
Calan DVS  
Tros Gynnal Plant  
Digartref  
Campws Cyntaf (Partneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach)  
Gwasanaeth Gofalwyr Powys  
Hafal  
NYAS  
CCPAS  
Canolfan Gogledd Cymru dros Blant & Phobl ifanc  
The Fern Partnership  
The Venture  
Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS)  
Chwarae Cymru  
Cyngor Hil Cymru  
Atal y Fro  
Family Psychology Solutions CIC  
Place2Be  
Cymdeithas Plant St David's  
RNIB Cymru  
Partneriaeth Gweithredu Adferol Cymru  
Gofal Arthritis Cymru  
Booktrust Cymru  
Urdd Sant Ioan Cymru Wales  
Ysgol Steiner Caerdydd  
Campfire Cymru  
The Windfall Centre  
Toadhall Montessori Nursery and Creche  
Gwasanaeth Camdriniaeth Ddomestig Caerfyrddin (CDAS)  
Schoolhouse Daycare Ltd  
ASH Wales (Action on Smoking & Health in Wales)  
DEWIS Ltd  
Dangerpoint  
Plant Dewi  
Ysgol Neuadd Bryn Tirion  
Cymdeithas Ieuenctid a Phlant Sir Gaerfyrddin (CYCA)  
Y Bont  
Buttle UK  
Anabledd Dysgu Cymru  
Uned Hawliau Plant Castell-nedd Port Talbot  
CVS Castell-nedd Port Talbot  
SENSE Cymru  
Bwrdd Esgobaethol Abertawe ac Aberhonddu dros Gyfrifoldeb  
Cymdeithasol  
Cymdeithas Tai Taff  
Lleisiau o Ofal (Cymru)  
Cyngor Ffoaduriaid Cymru  
Wye Valley Mediation  
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)  
Displaced People in Action  
Bettws Lifehouse  
Claire Field Consultancy

Canolfan Deuluol Garnant  
Canolfan Pobl Ifanc GVCC  
Cymdeithas y Byddr Gogledd Cymru  
Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl  
TîmCymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)  
Home Start Sir y Fflint  
Gofal Profedigaeth Cruse Cymru  
Rhwydwaith Maethu Cymru  
Relate Cymru  
4 the Community CIC  
Autism Puzzles  
Adoption UK  
Lylac Ridge  
People and Work Unit  
Discovery Student Volunteering Abertawe  
Canolfan Plant Jig-So Children's Centre  
Whizz Kidz  
Right From The Start (Caerffili)  
YrEglwys Ddiwygiedig Unedig, Synod Cenedlaethol Cymru  
Dyfodol Powys Futures  
GroBrain

### Aelodau unigol

Ms Ann Sherlock	Mr Adam Kaps
Dr Anne Crowley	Miss Beca Jones
Mrs Sam Fox	Yr Athro Jonathan Scourfield
Mr Paul Hopkins QC	Dr Mike Shooter CBE
Mr Roger Bishop	Mrs Ann Williams
Mrs Claire Sinnott	Mr David R O Evans
Mrs Diane Daniel	Ms Donna Paton
Dr Sarah Jones	Mrs Emma Tregoning
Mr Martin Price	Mrs Jan Berry
Ms Jan Owen	Mr John Harris
Ms Kara Williams	Ms Katrina Couper
Mrs Lauren Lincez	Mrs Lesley Conran
Mrs Linda Williams	Ms Lisa Payne
Mr Matthew Underhill	Ms May Baxter-Thornton
Ms Melda Price	Ms Mina McElwain
Mr Neil Owen-Casey	Mr Nick Bryning
Yr Athro Nigel Thomas	Mrs Pauline Galluccio
Yr Athro Jo Sibert OBE	Mrs Rebecca Villard
Dr Ruth Parry	Mrs Sandhya Saldanha
Ms Sara Reid	Ms Sarah Morgan
Ms Sarah Mourad-Agha	Mr Sion Edwards
Mrs Sylvia Jones	Mr Tom Davies
Mr Tim Anfield	Mrs Tracy Mayo
Mr Trevor Evans	Yr Athro June Statham
Ms Vanessa Webb	Mrs Ruth Davies


### Aelodau atodol

Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP) – CS Casnewydd  
Cyngor Sir Ceredigion – Cymorth i Deuluoedd  
Cyngor Caerdydd - Rheolwr Tîm Gwaith Cymdeithasol  
Home Start Ceredigion  
Canolfan Plant Integredig Cwm Golau  
Home Start Blaenau Gwent  
Gofal Profedigaeth Cruse Cymru  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Gwasanaethau Cymorth  
Synhwyraidd a Chyfathrebu  
Home Start Cyngor Bwrdeistref Wrecsam  
Gweithredu dros Blant

## Crynodeb ariannol


<b>Gwariant</b>		
Plant, Pobl ifanc, Teuluoedd & Gweithlu mwy Cysylltiedig	£381,874	27.3%
Dylanwadu ar Arfer, Datblygiad Polisi ac Ymchwil drwy Gynrychioli ac Ymgynghori	£414,065	29.6%
Better Informed Children, Young People, Families & Workforce	£537,616	8.4%
Gwasanaethau Cymorth i Aelodau	£66,977	4.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,400,532</b>	<b>100%</b>
<b>Income</b>		
Plant, Pobl ifanc, Teuluoedd & Gweithlu mwy Cysylltiedig	£351,817	25.8%
Dylanwadu ar Arfer, Datblygiad Polisi ac Ymchwil drwy Gynrychioli ac Ymgynghori	£392,627	28.7%
Better Informed Children, Young People, Families & Workforce	£480,764	35.2%
Gwasanaethau Cymorth i Aelodau	£76,733	4.7%
Llywodraethu	£78,530	5.6%
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,380,471</b>	<b>100%</b>

Expenditure



- Better connected Children, Young People, Families & Workforce
- Influencing Practice, Policy Development & Research through Representation & Consultation
- Better Informed Children, Young People, Families & Workforce
- Membership Support Services

Income



- Better connected Children, Young People, Families & Workforce
- Influencing Practice, Policy Development & Research through Representation & Consultation
- Better Informed Children, Young People, Families & Workforce
- Membership Support Services
- Governance